# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 25 Mawrth 2015** |
| Amser: | **09.02 – 12.10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/3155**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Nick Ramsay AC** |
| Tystion: | **Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru**<br>**Sarah Tully, Llywodraeth Cymru**<br>**Bethan Davies, Llywodraeth Cymru**<br>**Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**<br>**Gareth Thomas, Llywodraeth Cymru**<br>**Clare Smith, Llywodraeth Cymru**<br>**Nick Bennett, Ombwdsmon Cymru Cyhoeddus Cymru in Welsh**<br>**Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu**<br>**Katrin Shaw, Public Service Ombudsman for Wales Office** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)** |

Leanne Hatcher (Ail Clerc)
Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)
Martin Jennings (Ymchwilydd)
Richard Bettley (Ymchwilydd)
Helen Jones (Ymchwilydd)
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

## 1 Papur briffio ffeithiol gan Lywodraeth Cymru ar Dreth Tirlenwi

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafodd y Pwyllgor bapur briffio ffeithiol gan Lywodraeth Cymru ar Dreth Tirlenwi.

1.3 Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

- rhestr o wastraff cymwys;
- rhestr o safleoedd tirlenwi awdurdodau lleol; a
- rhestr o'r 191 o gyrff Amgylcheddol a chyrff Dosbarthu Amgylcheddol sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

## 2 Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Ystyriaeth gychwynnol

2.1 Ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a chytunodd i wahodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod ar gyfer gofyn rhagor o gwestiynau iddo.

## 3 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

3.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 5 Bil Llywodraeth Leol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru).

5.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu i'r Pwyllgor:

- unrhyw amcangyfrifon o gostau a geir yn yr achosion a gyflwynwyd iddo gan y chwe awdurdod lleol ar gyfer uno gwirfoddol;
- eglurhad ynghylch a oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer i uno cronfeydd pensiwn, a gwybodaeth ynghylch a oes rheolau penodol o ran cronfeydd pensiwn llywodraeth leol; ac

- adroddiad y Comisiwn Staff blaenorol (a gyhoeddwyd ym mis Medi 1996 o bosibl) mewn perthynas ag uno blaenorol.

## 6 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 12

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 8 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Y Prif Faterion

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y prif faterion yn ei ymchwiliad i Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.